OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 23

Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

Gwnaed *3 Chwefror 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 23

The Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services (Appointed Day) (Wales) Order 2026

Made *3 February 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 23

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 31 Mawrth 2026 fel y diwrnod y daw'r Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig ("y Cod Ymarfer") i rym.

Mae'r Cod Ymarfer wedi ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.

Mae'r Cod Ymarfer wedi ei ddyroddi ochr yn ochr â chanllawiau o dan adran 169 o Ddeddf 2014 (mewn perthynas ag arfer eu priod swyddogaethau gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn unol â threfniadau partneriaeth a wneir o dan Ran 8 o Ddeddf 2014) a chanllawiau o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (mewn perthynas ag arfer swyddogaethau perthnasol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG).

Mae'r Cod Ymarfer ar gael ar-lein ar www.llyw.cymru neu gellir cael copi wedi ei argraffu oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 23

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

Gwnaed *3 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) ("Deddf 2014"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan adran 146(1) o Ddeddf 2014, wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o'r Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig ("y Cod Ymarfer").

Yn unol ag adran 146(2) o Ddeddf 2014, gosodwyd drafft o'r Cod Ymarfer gerbron Senedd Cymru(**2**) ar 1 Rhagfyr 2025.

Yn unol ag adran 146(3) o Ddeddf 2014, o fewn cyfnod o 40 niwrnod, ni phenderfynodd Senedd Cymru beidio â chymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft, a dyroddwyd y Cod Ymarfer ar ffurf y drafft hwnnw.

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw'r Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig, y gosodwyd drafft ohono gerbron Senedd Cymru ar 1 Rhagfyr 2025 ac a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 2 Chwefror 2026.

(**1**) 2014 dccc 4 ("Deddf 2014").
(**2**) Mae unrhyw gyfeiriad yn Neddf 2014 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r Cod Ymarfer ddod i rym yw 31 Mawrth 2026.

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
3 Chwefror 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 23

SOCIAL CARE, WALES

The Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services (Appointed Day) (Wales) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order appoints 31 March 2026 as the day on which the Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services ("the Code of Practice") comes into force.

The Code of Practice is issued by the Welsh Ministers under section 145(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act").

Section 145(3) of the 2014 Act requires local authorities, when exercising social services functions, to act in accordance with any relevant requirements contained in a code issued under section 145(1) and to have regard to any relevant guidelines contained in it.

The Code of Practice is issued alongside guidance under section 169 of the 2014 Act (in relation to the exercise by local authorities and local health boards of their respective functions in accordance with partnership arrangements made under Part 8 of the 2014 Act) and guidance under section 2 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (in relation to the exercise of relevant functions of Local Health Boards and NHS Trusts).

The Code of Practice can be accessed on the internet at www.gov.wales or a printed copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2026 No. 23

SOCIAL CARE, WALES

The Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services (Appointed Day) (Wales) Order 2026

Made *3 February 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 146(4)(b) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**) ("the 2014 Act"), make the following Order.

The Welsh Ministers, as required by section 146(1) of the 2014 Act, have consulted such persons as they think fit on a draft of the Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services ("the Code of Practice").

In accordance with section 146(2) of the 2014 Act, a draft of the Code of Practice was laid before Senedd Cymru(**2**) on 1 December 2025.

In accordance with section 146(3) of the 2014 Act, within a period of 40 days Senedd Cymru did not resolve not to approve the draft Code of Practice, and the Code of Practice was issued in the form of that draft.

Title and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services (Appointed Day) (Wales) Order 2026.

(2) In this Order, "the Code of Practice" means the Code of Practice on Quality Assurance and Performance Management, Escalating Concerns and Closure of Regulated Care and Support Services, a draft of which was laid before Senedd Cymru on 1 December 2025 and issued by the Welsh Ministers on 2 February 2026.

(**1**) 2014 anaw 4 ("the 2014 Act").
(**2**) Any reference in the 2014 Act to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Appointed day

2. The day appointed for the coming into force of the Code of Practice is 31 March 2026.

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care, under the authority of Jeremy Miles, Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
3 February 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839793-2

9 780348 397932